# CYDWEITHIO ER BUDD DIOGELWCH AR Y FFERM

**Stopiwch... meddyliwch... cadwch yn ddiogel ar eich fferm**

**Awgrymiadau i wneud eich fferm yn lle diogel i weithio**




PARTNERIAETH DIOGELWCH AR FFERMYDD CYMRU

WALES FARM SAFETY PARTNERSHIP

Ariennir gan **Llywodraeth Cymru**

Funded by **Welsh Government**

# STOPIO'N DDIOGEL

P BREC LLAW

N NIWTRAL

STOP DIFFODD YR INJAN

TYNNU'R ALLWEDD

PARTNERIAETH DIOGELWCH AR FFERMYDD CYMRU
WALES FARM SAFETY PARTNERSHIP

Lluniau'r clawr blaen gan: *Ambiwlans Awyr Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru*

# Rhagair



**25** o bobl wedi marw yn ystod 2021/22

**ffermwyr, aelodau'r teulu a gweithwyr fferm...**

Yn drychinebus, bu farw 25 o bobl ar ffermydd ym Mhrydain yn ystod 2021/22. Allan o'r 25 hynny, roedd tri ohonynt yng Nghymru. Mae hwn yn ystadegyn arswydus sy'n cael ei ddwysáu o ystyried bod miloedd mwy o unigolion yn cael anafiadau neu salwch sy'n newid eu bywydau wrth iddynt weithio ar ffermydd neu ymweld â nhw.

Mae Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru yn gydweithrediad rhwng rhai o sefydliadau rhanddeiliaid amaethyddol allweddol Cymru. **Gyda'ch cymorth chi a thrwy weithio gyda'n gilydd, gallwn leihau'r risgiau a newid ymddygiadau. Gallwn achub bywydau a bywoliaeth pobl ar ffermydd yng Nghymru ac mae'n rhaid i ni wneud hynny.**

Os byddwch chi'n ymrwymo **HEDDIW** i roi'r dulliau gweithredu a diogelu sydd wedi'u hargymell yn y llyfryn hwn ar waith (dulliau sy'n amlygu rhai o'r pethau mwyaf cyffredin a rhwystradwy a allai achosi damweiniau ar eich fferm), byddwch chi'n helpu lleihau'r risg o farwolaeth neu anafiadau difrifol ar eich cyfer chi, aelodau o'ch teulu a'ch gweithwyr.



**Alun Elidyr**
Llysgennad
*Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru*



**Glyn Davies**
Llysgennad
*Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru*

RHYBUDD

**Peidiwch ag anwybyddu diogelwch fferm!**
Helpwch ni i'ch helpu chi wneud eich fferm yn le mwy diogel i weithio.

# Cerbydau sy'n symud



- Sicrhewch fod eich cerbyd wedi'i gynnal yn dda, yn enwedig breciau ôl-gerbydau. Gwiriwch bwysedd teiar yn rheolaidd.
- Dylech gadw pobl a cherbydau sy'n symud ar wahân
- Ni ddylid cario teithwyr
- Dylech wisgo gwregys diogelwch bob amser
- Rhaid i bob gyrrwr fod wedi ei hyfforddi ac yn gymwys
- Sicrhewch fod pob llwyth yn sefydlog ac yn ddiogel
- Sicrhewch fod drychau wedi'u gosod ac wedi'u haddasu'n gywir. Trwsiwch unrhyw ddrych sydd wedi torri cyn gynted â phosibl
- Dylech gadw drychau a ffenestri'r cab yn lân
- Dylech sicrhau nad oes pobl o'ch cwmpas wrth yrru – mae gan lawer o gerbydau, fel tryc codi telesgopig, fannau dall
- Dilynwch arferion ***Stopio'n Ddiogel** bob amser (gweler tudalen 2)

## PEIDIWCH Â…

- Symud i ffwrdd mewn unrhyw gyfeiriad heb wirio'r uchod
- Anghofio gwirio bod y cerbyd mewn cyflwr da a diogel

# Cerbydau wedi troi drosodd

...mae cerbydau pob tirwedd (ATV) a thractorau yn peri risgiau



- Rhaid i bob gyrrwr fod wedi'i hyfforddi a bod yn gymwys
- Ni ddylid cario teithwyr
- Dylech wisgo gwregys diogelwch bob amser os yw'r cerbyd yn darparu un
- Rhaid i'r gyrrwr wisgo helmed ATV addas a chymeradwy
- Rhaid cynnal a chadw cerbydau, trelars ac unrhyw offer neu beiriannau sy'n cael eu tynnu tu ôl i'r cerbyd mewn cyflwr da – mae angen gwirio pwysedd y teiar, y brêc a'r sbardun yn rheolaidd
- Sicrhewch fod pob llwyth yn sefydlog ac wedi ei gydbwyso'n gywir
- Dilynwch arferion ***Stopio'n Ddiogel** bob amser

## PEIDIWCH Â...

- Gyrru neu weithredu ATV oni bai eich bod wedi'ch hyfforddi'n llawn ac yn gymwys
- Cymryd risgiau ar dir anwastad neu lethrog a all arwain at wrthdroi

# Peiriannau



- Rhaid i bob defnyddiwr fod wedi'i hyfforddi a bod yn gymwys
- Dim ond o safle'r gyrrwr y dylid gweithredu'r rheolyddion a sicrhewch fod pob defnyddiwr yn gwybod sut i'w defnyddio'n gywir
- Cyn i chi wneud unrhyw waith cynnal a chadw ar beiriant – yn y gweithdy neu yn y cae – gofalwch ei bod yn ddiogel i chi i weithio arnynt drwy ddilyn arferion ***Stopio'n Ddiogel**
- Gwiriwch fod y gardiau cywir yn eu lle ac mewn cyflwr da. Sicrhewch eich bod chi'n gwybod pa gardiau ddylai fod yno, gwiriwch eu bod yn ddiogel yn eu lle a'u bod nhw mewn cyflwr diogel
- Archwiliwch bob cerbyd/peiriant er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu cynnal a'u cadw'n gywir
- Dilynwch arferion ***Stopio'n Ddiogel** bob amser

## PEIDIWCH Â...

- Defnyddio offer os nad yw'r siafft PTO wedi ei warchod yn llawn gan y gardiau cywir sydd wedi'u diogelu gyda chadwyni i atal y gard rhag cylchdroi
- Defnyddio peiriant os nad ydych wedi'ch hyfforddi nac yn gymwys i'w ddefnyddio

# Trin da byw



- Sicrhewch fod pawb sydd yn trin da byw wedi'u hyfforddi ac yn gymwys
- Defnyddiwch gyfleusterau trin priodol bob amser, a'u cadw mewn cyflwr da
- Defnyddiwch redfa a chraets (crush) priodol ar gyfer yr anifeiliaid rydych chi'n gweithio â nhw a'r tasgau rydych chi'n eu gwneud
- Sicrhewch fod gennych bolisi pendant o ran difa anifeiliaid oriog
- Peidiwch byth â diystyru greddf buwch i amddiffyn llo sydd newydd ei eni – dylech ystyried offer trin a llwybrau dianc bob amser
- Ceisiwch beidio gweithio ar eich pen eich hun gydag anifeiliaid mawr a sicrhewch fod oedolion, plant neu gŵn a allai ddychryn nhw yn cadw o'r ffordd

## PEIDIWCH Â…

- Gweithio gyda gwartheg/stoc rhydd heb gyfleusterau trin addas
- Diystyru risg yn ymwneud â gwartheg, hyd yn oed pan fo gennych drefniadau da wrth gefn

# Gweithio ar uchder




- Ceisiwch osgoi neu leihau'r amser a dreulir yn gweithio ar uchder pan fo hynny'n bosibl – mae angen cynllunio ymlaen llaw, osgoi amodau tywydd gwlyb a rhewllyd a defnyddio offer diogelwch megis platfformau gweithio symudol sy'n codi, sgaffaldiau a dyfeisiau atal cwympo
- Lleihau'r risg o gwympo o beiriannau mawr fel combein trwy ddefnyddio'r ystolion mynediad neu'r mannau sefyll a ddarperir gan y gweithgynhyrchwyr
- Rhaid i bawb sy'n gweithio ar uchder gael eu hyfforddi a bod yn gymwys. Hefyd, dylent ddefnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) addas
- Os nad ydych wedi'ch hyfforddi neu nad ydych chi'n gwybod pa gyfarpar i'w ddefnyddio, yna dylech gysylltu â chontractwr toi arbenigol

## PEIDIWCH Â…

- Gweithio ar ben to bregus neu gerdded o fewn dau fetr o ardaloedd to bregus heb ei orchuddio heb ddefnyddio mannau sefyll gyda chanllawiau diogelwch, harnais diogelwch addas, net diogelwch neu systemau atal neu leihau cwympo
- Gweithio ar unrhyw loriau neu lwyfannau penagored os nad oes ganddynt ganllawiau diogelwch addas

# Cadwch blant a phobl ifanc yn ddiogel ar y fferm




- Crëwch fan chwarae wedi'i ffensio penodol a diogel ar gyfer plant ifanc na ddylai fod ar y fferm
- Sicrhewch fod plant yn cael eu goruchwylio bob amser gan oedolyn cyfrifol sy'n canolbwyntio'n llawn ar y plant. Ni ddylent fod yn gwneud gwaith fferm ar yr un pryd
- Bydd angen asesiad risg arnoch os ydych yn cyflogi pobl ifanc o dan 18 oed a dylech ystyried nad oes ganddynt lawer o brofiad, aeddfedrwydd nag ymwybyddiaeth o risgiau perthnasol
- Cadwch gemegau ac offer mewn lle diogel, wedi'u cloi o'r ffordd ac allan o gyrraedd plant a phobl ifanc

## PEIDIWCH Â…

- Chaniatáu unrhyw blentyn o dan 13 oed i yrru, neu i reidio ar, unrhyw beiriannau hunanyredig amaethyddol fel tractorau a cherbydau ATV nac i ddefnyddio unrhyw beiriannau fferm
- Rhoi mynediad i blant heb oruchwyliaeth i unrhyw leoedd peryglus fel lleoedd uchel, peiriannau ac offer fferm, da byw neu gerbydau sy'n symud

# Gwnewch eich fferm yn le mwy diogel i weithio




## Mentora un i un

Mae gwasanaeth mentora Cyswllt Ffermio, sydd wedi'i ariannu'n llawn, yn darparu hyd at 15 awr o gyfarwyddyd un i un cyfrinachol ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys iechyd a diogelwch fferm, i ffermwyr a choedwigwyr cymwys. Gallwch sgwrsio dros y ffôn neu ar-lein yn anffurfiol, neu trefnwch ymweliad fferm er mwyn eich helpu chi i adnabod risgiau, osgoi neu gael gwared ar beryglon a lleihau'r risg o ddamweiniau ar eich cyfer chi, eich teulu a'ch gweithwyr.

I ddewis mentor cymeradwy o gyfeirlyfr ar-lein Cyswllt Ffermio, ewch i **www.llyw.cymru/cyswlltffermio**. Gallwch gyfyngu eich dewis trwy ddefnyddio'r adnodd i chwilio am fentoriaid iechyd a diogelwch.



## Hyfforddiant

Mae Cyswllt Ffermio yn darparu ystod eang o gyrsiau byr wyneb yn wyneb ac ar-lein, a gall unigolion cofrestredig gael cymhorthdal o hyd at 80%. Gallwch ddewis o ystod eang o bynciau yn ymwneud â diogelwch, sy'n perthyn i'r adrannau 'Busnes', 'Da byw' a 'Tir'. O fewn yr adrannau, mae cyrsiau ar gymorth cyntaf, rheoli straen, gweithio ar uchder, gyrru cerbydau fferm yn ddiogel, trin peiriannau a da byw yn ddiogel, defnydd diogel o sylweddau peryglus, a llawer mwy.





## E-ddysgu

Mae Cyswllt Ffermio yn darparu dros 100 o gyrsiau e-ddysgu rhyngweithiol wedi'u hariannu'n llawn. Gallant eich helpu chi i ddatblygu sgiliau newydd a phresennol, dysgu rhagor o wybodaeth a gwella arferion gwaith o fewn eich busnes. Mae'r rhain yn cynwys cyrsiau diogelwch fferm: cerbydau ATV, thryciau codi telesgopig, trin da byw, plaladdwyr a mwy.

DS Mae'r e-fodiwl Iechyd a Diogelwch yn orfodol os ydych chi'n bwriadu ymgeisio ar gyfer hyfforddiant archrededig mewn tri categori, busnes, tir a da byw.

Am wybodaeth bellach, ewch i **www.llyw.cymru/cyswllttffermio**. Hefyd, gallwch ffonio Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar **03456 000 813** neu cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol.

## Cadwch yn ddiogel ar eich fferm

Am gyngor mwy cynhwysfawr ar iechyd a diogelwch fferm, ewch i:

**Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru**

@farmsafetywales

Farm Safety Wales

https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/iechyd-diogelwch

**Farm Safety Foundation**

www.yellowwellies.org

**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**

www.hse.gov.uk/agriculture






# Iechyd a llesiant meddyliol

## Angen cymorth neu gefnogaeth?

FarmWell Wales
www.farmwell.wales

### Addington Fund

01926 620135
www.addingtonfund.org.uk

### DPJ Foundation

0800 587 4262 (Rhadffôn)
Anfonwch neges destun at 07860 048799
www.thedpjfoundation.co.uk

### Tir Dewi

0800 121 4722 (Rhadffôn)
info@tirdewi.co.uk
www.tirdewi.co.uk

### Farming Community Network (FCN)

03000 111 999
help@fcn.org.uk
www.fcn.org.uk

### Royal Agricultural Benevolent Institution (RABI)

0808 281 9490 (Rhadffôn)
info@rabi.org.uk
www.rabi.org.uk

### Mind Cymru

0300 123 3393 neu anfonwch neges destun at 86463
info@mind.org.uk
www.mind.org.uk

### Samaritans

Call 116 123 (Rhadffôn)
www.samaritans.org

Nodir bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol hyd at ddyddiad cyhoeddi Mehefin 2023.